| CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD & YNYS MÔN (2011 – 2026) | |
|---|---|
| **ARCHWILIAD CYHOEDDUS:**<br>**Sesiwn gwrandawiad 7 – Mwynau a Gwastraff** | CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL |

**Pwynt Gweithredu S7/PG14 – Polisi PS 5/ PCYFF 1**

**Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i gryfhau'r cyfeiriad a wneir tuag at waredu gwastraff mewn modd cynaliadwy.**

**1] Ymateb y Cynghorau:**

1.1 Mae Polisi PS 5 yn cyfeirio at yr angen i ymgorffori egwyddorion cynaliadwy er mwyn cyfrannu, e.e. at leihau ac ailgylchu gwastraff. Er mwyn cryfhau Polisi PCYFF 1 mae'r Cynghorau am gyflwyno Newid Materion sy'n Codi i ddiwygio maen prawf 6, fel a welir isod:

> 6 ~~roi sylw i gynhyrchu, trin a gwaredu gwastraff~~ gynnwys darpariaeth ar gyfer storio, ailgylchu a rheoli gwastraff yn ystod y cyfnod adeiladu a phan gaiff ei feddiannu

1.2 Y nod ydi annog llai o wastraff yn cael ei gynhyrchu, ail-gylchu, compostio ac ati o'r cychwyn ac yn ystod oes y datblygiad.